PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**E-lawlyfr 2**
**CYFLWYNIAD I SYNIADAU GWLEIDYDDOL**
Uned 3: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
CYSYNIADAU A DAMCANIAETHAU GWLEIDYDDOL

**Adnodd 4**

# *Ceidwadaeth: Ffrydiau Amrywiol*

## Canllaw i Athrawon

International Politics | Gwleidyddiaeth Ryngwladol

cbac wjec

# CANLLAW I ATHRAWON

Mae'r adnodd hwn, ***Ceidwadaeth: Ffrydiau Amrywiol***, yn un o wyth sy'n rhan o ***E-lawlyfr 2: Cyflwyniad i Syniadau Gwleidyddol***. Mae pob un o'r adnoddau sy'n rhan o'r e-lawlyfr hwn wedi'u teilwra'n arbennig i gynorthwyo'r sawl sy'n dysgu neu'n astudio Uned 3 o fanyleb CBAC ym maes Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Cysyniadau a Damcaniaethau Gwleidyddol.'

Bwriad yr adnodd hwn yw rhoi sylw i faterion sy'n berthnasol i adran 3.2.1 o'r fanyleb, sef 'Gwerthoedd a Syniadau Sylfaenol Ceidwadaeth'. Gwneir hynny trwy gynnig cyflwyniad i rai o'r prif ffrydiau Ceidwadol a gaiff eu rhestru yn yr adran hon o'r fanyleb, sef Ceidwadaeth Awdurdodaidd, Ceidwadaeth Draddodiadol a'r Dde Newydd. Dylid nodi bod cysylltiad agos rhwng yr adnodd hwn ac Adnodd 3, Ceidwadaeth: Nodweddion Allweddol, sy'n cyflwyno rhai o'r elfennau ceidwadol sydd hefyd yn cael eu rhestru yn adran 3.2.1 o'r fanyleb.

Bwriad y canllaw byr yma yw cynnig amlinelliad o gynnwys yr adnodd a hefyd gorolwg o'r math o ymarferion a geir yn y llawlyfr gwaith.

## Cynnwys y Llawlyfr Gwybodaeth

Cynigia'r llawlyfr gwybodaeth gyflwyniad cyffredinol i dair ffrwd Geidwadol allweddol ac fe wneir hynny ar sail strwythur digon syml.

I ddechrau, trafodir rhai o brif nodweddion Ceidwadaeth Awdurdodaidd. Eglurir bod hwn yn draddodiad a ddaeth i amlygrwydd ar gyfandir Ewrop yn ystod y cyfnod yn dilyn Chwyldro Ffrainc ym 1789 a'i fod wedi parhau i ennyn cefnogaeth drwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac i mewn i'r ugeinfed ganrif. Eglurir ei fod yn darddodiad Ceidwadol a fu'n amharod iawn i gofleidio'r syniad o ddemocratiaeth gan ffafrio trefniadau llywodraethol awtocrataidd. Rhoddir sylw i gasgliad o feddylywr gwleidyddol (e.e. Joseph de Mistre) a hefyd gwleidyddion (e.e. Nicholas II a Otto von Bismak) sydd wedi'u cysylltu â'r traddodiad. Nodir hefyd y gorgyffwrdd a geir rhwng y ffrwd benodol hon o Geidwadaeth â syniadau Ffasgaidd.

Yn ail, trafodir Ceidwadaeth Draddodiadol (neu Geidwadaeth Dadofalaethol fel y cyfeiri ati ar brydiau). Dechreuir trwy amlinellu'r syniad o newid graddol sy'n parchu traddodiad, rhywbeth a oedd mor ganolog i ddadl Edmund Burke, yn ei gyfrol enwog, Reflections on the Revolution in France (1790).

Eir ati wedyn i egluro sut y bu i Geidwadaeth Draddodiadol esblygu yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yna'r ugeinfed ganrif. Wrth wneud hyn eglurir y gellir adnabod dwy is-garfan Geidwadol arwyddocaol: y gyntaf (Ceidwadaeth Un Genedl) yn fynegiant Prydeinig o Geidwadaeth Draddodiadol a'r ail (Democratiaeth Gristnogol) yn fynegiant Ewropeaidd mwy diweddar.

Yn drydydd, trafodir datblygiad y Dde Newydd. Yma fe wneir ymdrech i dynnu sylw at y ffaith fod hwn yn draddodiad syniadol newydd a oedd mewn sawl ffordd yn dynodi toriad clir o'r math o syniadau Ceidwadol a fu'n gyfarwydd hyd at hynny, o ran y modd roedd y Dde Newydd yn cofleidio ymagwedd gwleidyddol fwy radical ac egwyddorol. Eir ati hefyd i geisio dangos nad un corff trefnus o syniadau cydlynol mo'r Dde Newydd. Eglurir ei fod yn cwmpasu dwy gangen wahanol – un neoryddfrydol ac un neogeidwadol – a bod modd cwestiynu i ba raddau y mae'r ddwy gangen hon yn cydweddu â'i gilydd yn daclus.

## Ymarferion yn y Llawlyfr Gwaith

Mae tasgau cyntaf y llawlyfr gwaith yn cynnig cyfle i'r disgyblion ddysgu mwy ynglŷn âg ystod o feddylwyr a gwleidyddion Ceidwadol pwysig a hefyd bwyso a mesur â pha draddodiad Ceidwadol y maent yn perthyn agosaf. Amcan y gweithgareddau dilynol yw rhoi cyfle i'r disgyblion ddyfnhau eu dealltwriaeth o brif nodweddion y ffrydiau Ceidwadol gwahanol a drafodwyd yn y llawlyfr gwybodaeth a hefyd i gymharu a chyferbynnu'r nodweddion hyn. Mae'r gweithgareddau'n galw am restru pwyntiau perthnasol mewn tablau a hefyd yn galw am lunio atebion ysgrifenedig sy'n amrywio o ran eu hyd.

### DARLLEN PELLACH

Barbara Goodwin, *Using Political Ideas* (Chichister, John Wiley & Sons Ltd, 2014), pennod ar Ceidwadaeth, tud 161-82.

Andrew Vincent, Modern *Political Ideologies* (Rhydychen, Wiley-Blackwell, 2010), pennod ar Ceidwadaeth, tud 55-83.